# TUEDDIADAU'R TRYDYDD SECTOR YNG NGHYMRU A LLOEGR

## Datganiad ar foeseg y gwaith ymchwil, preifatrwydd personol a sut bydd y data yn cael ei ddefnyddio (Mai 2025)

## Diben yr astudiaeth

Dechreuodd Tueddiadau'r Trydydd Sector yn 2008 ac mae bellach yn ymdrin â Chymru a Lloegr. Cafodd yr astudiaeth ei llunio a'i chomisiynu'n wreiddiol gan Northern Rock Foundation, a chafodd y gwaith ymchwil ei wneud gan brifysgolion Durham, Southampton a Teesside. Community Foundation North East oedd cyd-sylfaenydd yr ymchwil a nhw bellach sy'n gyfrifol am ei hetifeddiaeth.

Ers 2012, mae'r rhaglen ymchwil wedi'i chynnal gan adran Polisi ac Ymarfer, Coleg St Chad, Prifysgol Durham. Mae ei chyrhaeddiad daearyddol wedi ehangu, yn gyntaf i Ogledd Lloegr yn 2016 ac yna i Gymru a Lloegr yn 2019. Mae'r holl ddata a gedwir o'r astudiaeth yn eiddo i Community Foundation North East a Choleg St Chad Prifysgol Durham.

Sefydlwyd yr astudiaeth i edrych ar strwythur, adnoddau, diben, ymarfer ac effaith y Trydydd Sector o safbwynt annibynnol a, chyhyd â'i fod yn bosibl, 'gwrthrychol'. Gan hynny, mae'r astudiaeth yn casglu a dadansoddi data meintiol ac ansoddol er mwyn edrych ar faterion o ddiddordeb i'r llywodraeth, mudiadau sector cyhoeddus ac iechyd lleol, y sector preifat, sefydliadau llunio grantiau, mudiadau seilwaith y Trydydd Sector ar lefelau cenedlaethol a lleol ac, wrth gwrs, mudiadau Trydydd Sector unigol.

Er mwyn ehangu cwmpas yr astudiaeth, mae Tueddiadau'r Trydydd Sector wedi gweithio gyda llawer o bartneriaid cyllido dros y blynyddoedd. Yn 2025, mae'r astudiaeth yn cael ei chefnogi gan The Community Foundation North East, Sefydliad Lloyds Bank Cymru a Lloegr, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Millfield House Foundation.

Os hoffech ragor o wybodaeth am ddiben yr astudiaeth a'i chyhoeddiadau, ceir rhagor o wybodaeth yma: *https://www.stchads.ac.uk/research/third-sector-trends-in-england-and-wales/

Os hoffech wybod mwy am ddulliau ymchwilio, gallwch ddarllen yr adroddiad hwn (un ar gyfer 2022 yw hwn a bydd yn cael ei ddiweddaru yn 2025 unwaith y bydd y gwaith maes wedi'i gwblhau): *https://www.stchads.ac.uk/wp-content/uploads/2022/10/Third-Sector-Trends-Research-Methods-2022.pdf

Ceir hefyd adroddiad ar dechnegau dadansoddi (a fydd hefyd yn cael ei ddiweddaru yn 2025): *https://www.stchads.ac.uk/wp-content/uploads/2024/05/Structure-purpose-energy-and-impact-of-the-Third-Sector-in-the-West-Midlands-May-2023.pdf

## Moeseg yr ymchwil a chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar ddiogelu data

Coleg St Chad, Prifysgol Durham sy'n gyfrifol am gasglu'r data ar gyfer Tueddiadau'r Trydydd Sector, a chaiff hwn ei ddefnyddio yn unol â GDPR y DU/Deddf Diogelu Data 2018. Rydym wedi cael y dehongliad o'r rheoliadau hyn drwy *https://ukdataservice.ac.uk/.

Mae'r egwyddorion moesegol sydd wrth wraidd yr astudiaeth hon yn cyd-fynd â *Chymdeithas Cymdeithasegol Prydain, *y Gymdeithas Polisi Cymdeithasol a'r *Gymdeithas Ymchwil Cymdeithasol.

Arweinir y prosiect gan yr Athro Tony Chapman. Os hoffech eglurhad neu os hoffech drafod unrhyw agwedd ar y prosiect neu sut y caiff y data ei gasglu neu ei ddefnyddio, cysylltwch ag ef drwy e-bost: tony.chapman@durham.ac.uk

## Pwy sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth?

Mae cymryd rhan yn yr astudiaeth yn gwbl wirfoddol. Wedi dweud hynny, rydym yn gwneud y gwaith maes dros gyfnod estynedig rhwng Mehefin a Hydref a gall hyn olygu y bydd cyfranogwyr posibl yn derbyn nifer o geisiadau i gymryd rhan.

Gellir stopio ceisiadau trwy Online Surveys drwy ysgrifennu at y prif ymchwilydd (fel y nodir yn y llythyr gwahodd). Mae ceisiadau gan fudiadau eraill fel sefydliadau cymunedol a'r sector gwirfoddol y tu hwnt i reolaeth Coleg St Chad, Prifysgol Durham ac ni ellir eu stopio.

Ers ei dechreuad, mae mwy na 18,500 o ymatebion wedi'u rhoi gan fentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol (VCSEs) a chan fudiadau a grwpiau anghorfforedig. Rydym yn gwahodd pobl sy'n ymwneud yn agos â mudiadau o'r fath (er enghraifft, ymddiriedolaeth neu uwch-gyflogwyr) i gymryd rhan mewn arolwg bob tair blynedd.

Gwnawn hyn drwy anfon gwahoddiadau at bobl a nodir ar gofrestr y Comisiwn Elusennau a thrwy fudiadau eraill sy'n anfon gwahoddiadau o'u rhestrau o VCSEs (fel mudiadau seilwaith sector gwirfoddol lleol a chenedlaethol a sefydliadau cymunedol).

Er mwyn cadw golwg ar gyfraddau ymateb yn ôl ardal, caiff sampl o ddata ei olrhain yn ôl ardal a rhanbarth awdurdod lleol ond ni all ymatebwyr weld hynny ar Online Surveys.

Bydd cymryd rhan yn golygu cwblhau holiadur arolwg a fydd yn cymryd rhyw 15-20 munud gan ddefnyddio Online Surveys. Mae'r arolwg yn denu nifer mawr o

ymatebwyr (dros 6,000 yn 2022) ac yn coladu'r data er mwyn gwneud dadansoddiad ystadegol manwl yn ôl math o fudiad, math o ardal ac ati.

Yr astudiaeth hon yw'r unig astudiaeth gynrychiadol fawr o'i math yn y DU. Mae'n cymryd llawer o ymdrech gan lawer o fudiadau i gynhyrchu sampl digon mawr i'w ddadansoddi. Ymddiheurwn y gall hyn gythruddo rhai pobl, ond gofynnwn iddynt weld y buddion wrth ystyried gwerth ac effaith canfyddiadau'r astudiaeth.

### A yw'r arolwg yn casglu data personol?

Nac ydy, mae Tueddiadau'r Trydydd Sector yn ymwneud â mudiadau, nid unigolion. Sicrheir anhysbysrwydd llwyr yr ymatebwyr ymhellach drwy beidio â gofyn am, na chadw unrhyw 'wybodaeth bersonol' am yr ymatebwr (e.e. ei enw, cyfeiriad cartref, e-bost, rhif ffôn na manylion bywgraffiadol).

Rydym yn gofyn am gyfeiriad e-bost ar ddiwedd yr arolwg os bydd ymatebwyr yn dymuno cael gwybod am ei gyhoeddiadau – ond tynnir yr wybodaeth hon o'r gronfa ddata a'i gadw ar wahân a chaiff ei ddefnyddio at y diben a nodwyd yn unig. Ni fydd y rhestr cyfeiriadau e-bost yn cael ei rhannu gydag unrhyw fudiad arall (gan gynnwys Community Foundation North East).

Gofynnwn i ymatebwyr ddweud cod post prif swyddfa eu mudiad wrthym. Defnyddir y data hwn (fel y nodir yn glir yn yr holiadur arolwg) ar gyfer mapio daearyddol gan ddefnyddio ONS Lookups - ac unwaith y bydd hynny wedi'i wneud, caiff y cod post ei dynnu'n barhaol o'r gronfa ddata.

## A allaf ofyn i chi dynnu fy atebion yn ôl wedi iddynt gael eu cyflwyno?

Na allwch yn anffodus. Ni allwn dynnu eich data yn ôl oherwydd byddai'n amhosibl i ni ei adnabod o unrhyw ymateb arall gan nad ydym yn casglu nac yn cadw unrhyw wybodaeth am fudiad na hunaniaeth yr ymatebwyr.

## A all unrhyw un arall weld y data sy'n cael ei gasglu?

Rydym yn gweithio'n agos gyda mudiadau seilwaith y sector gwirfoddol a sefydliadau cymunedol ar lefel leol. Os byddant yn darparu cymorth sylweddol a chyson drwy holl gyfnod y gwaith maes, byddwn yn ystyried rhyddhau'r data iddynt ar gyfer eu hardal leol nhw os oes digon o achosion (h.y. llinellau data ar gyfer mudiadau unigol) i wneud dadansoddiad effeithiol a'n bod ni'n gallu sicrhau bod anhysbysrwydd yn cael ei ddiogelu'n llwyr.

Bydd unrhyw gytundebau o'r fath i rannu data yn cael eu gwneud ar y ddealltwriaeth bod codau post yn cael eu tynnu ymaith er mwyn sicrhau na ellir adnabod mudiad yr unigolyn. Hyd yma, dim ond unwaith y mae'r data o dan sylw wedi'i rannu (yn 2019), a hynny ar fformat taenlen. Yn gyffredinol, mae'n well gennym rannu data ar ffurf tabl yn unig.

Gellir rhannu'r data cofrestru o'n set ddata gofrestru gyfunol ar gyfer 2025 gan fod y data hwn ar gael i'r cyhoedd. Mae'r gofrestr gyfunol yn cynnwys data o gofrestr y Comisiwn Elusennau, cofrestr Cwmni Buddiannau Cymunedol, cofrestr Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol a chofrestr Cymdeithasau Cofrestredig.

## Pryd a sut gallaf weld canlyniadau'r astudiaeth pan fydd wedi'i chwblhau?

Bydd y canlyniadau yn cael eu cyhoeddi dros gyfnod o chwe mis gan ddechrau ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2025. Os ydych wedi rhoi eich e-bost i ni i dderbyn y canlyniadau hyn, byddwn yn cysylltu â chi i roi dolen i'r adroddiad cyntaf ac yn rhoi gwybod i chi pan fydd adroddiadau eraill ar gael a sut i'w gweld.

Mae canfyddiadau'r astudiaeth hefyd yn cael eu hadrodd yn eang mewn gweisg y sector gwirfoddol (*Civil Society Media, Third Sector, UK Fundraising* a *Charity Times*).

Bydd yr holl adroddiadau o'r astudiaeth ar gael ar wefannau *Community Foundation North East, *Coleg St Chad Prifysgol Durham.

*Saesneg yn unig

Durham University

WcVA
CgGC